# Fferm Solar Oaklands a Storfa Batri


Cylchlythyr y prosiect: Medi 2022

## Cadwch y Dyddiad!

Byddwn yn cynnal digwyddiad galw heibio i drafod y cynigion rhwng **3.30yp a 7.30yh ddydd Mercher 21 Medi 2022** yn **Ystafell Ddarllen Tresimwn, Tresimwn, Bro Morgannwg, CF5 6TQ**. Os hoffech fynychu, cofrestrwch eich diddordeb yn **planningconsultations@thesiriusgroup.com**

Er mwyn mynd i'r afael â'r her enfawr a achosir gan newid hinsawdd o waith dyn a'r angen i'r DU wella ei sicrwydd ynni er mwyn sicrhau parhad cyflenwad a lleihau costau ynni, rydym yn archwilio'r potensial i ddatblygu fferm solar gyda chapasiti allforio o tua 50MW a System Storio Ynni Batri 50MVA i'r de o bentref Tresimwn, Bro Morgannwg.






## Trosolwg o'r prosiect

Mae safle arfaethedig prosiect Fferm Solar a Storfa Batri Oaklands tua 0.7km i'r de o bentref Tresimwn, Bro Morgannwg ac mae'n ymestyn i tua 127ha. Gallai'r fferm solar gynhyrchu digon o drydan adnewyddadwy ar gyfer hyd at 20,400 o gartrefi bob blwyddyn, a gwrthbwyso dros 20,200 tunnell o Co2 y flwyddyn, sy'n cyfateb i dynnu tua 5,000 o geir petrol a diesel oddi ar y ffordd.*

Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar wefan y prosiect **www.oaklands-solar.co.uk**

## Amdanom ni

Mae Sirius Renewable Energy Ltd yn rhan o Grŵp Sirius, sy'n cynnig ystod eang o wasanaethau i'r amgylchedd adeiledig ledled y DU.

Mae Sirius Renewable Energy Ltd yn datblygu portffolio cynyddol o brosiectau ynni carbon isel ledled y DU, gan gynnwys nifer cynyddol o ffermydd solar a datblygiadau storfa batris.

Gan arbenigo mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy, mae arbenigedd cyffredinol Grŵp Sirius yn golygu y gall y busnes ariannu, datblygu, bod yn berchen ar a gweithredu ei brosiectau adnewyddadwy, gan gyflenwi ynni gwyrdd, cost isel a gwneud cyfraniadau sylweddol tuag at gyrraedd targedau lleihau carbon Cymru.

*Cyfrifiadau mewnol gan ddefnyddio Gwerthoedd Defnydd Domestig Nodweddiadol OFGEM a Ffactorau Trosi Carbon BEIS

## Ymgynghoriad ffurfiol cyn ymgeisio

Ystyrir bod y prosiect hwn yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC), sy'n golygu y bydd angen i ni wneud cais i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, a fydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Hoffem gael y cyfle i ddeall barn y gymuned leol ar y cynigion hyn cyn i ni gyflwyno ein cais. Hoffem eich gwahodd felly i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ffurfiol cyn ymgeisio ar y cynigion.

Mae gwefan y prosiect **www.oaklands-solar.co.uk** yn rhoi trosolwg o gynigion y datblygiad, gwybodaeth allweddol, dolenni i gopïau o'r cais cynllunio drafft llawn a chyfleoedd i wneud sylwadau ar y cais yn uniongyrchol. Gellir darparu adborth drwy e-bost, rhadbost, rhadffôn, neu drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar wefan y prosiect. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw hanner nos ar 24 Hydref 2022. Fel rhan o'r broses DNS mae'n ofynnol i ni baratoi a chyflwyno Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC) yn manylu ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a sut y mae adborth wedi'i ystyried ar gyfer y prosiect.

## Rhowch eich barn i ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau pellach am y cynigion neu'r broses ymgynghori sydd ar y gweill ar hyn o bryd, gallwch gysylltu â ni a rhoi eich adborth drwy:

**Gwefan y prosiect** – mae dogfennau prosiect a chynlluniau sy'n manylu ar natur a lleoliad y prosiect ar gael yn: **www.oaklands-solar.co.uk/project-documents**

**E-bost** – gellir darparu adborth ysgrifenedig gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: **planningconsultations@thesiriusgroup.com**

**Ffurflenni adborth** – ar gael ar-lein drwy wefan y prosiect. Fel arall, cysylltwch â ni i ofyn am gopi caled a byddwn yn ei bostio atoch

**Rhadbost** - gellir darparu adborth ysgrifenedig gan ddefnyddio cyfeiriad rhadbost y project **FREEPOST TC CONSULTATION** (does dim angen cyfeiriad na stamp)

**Rhadffôn** – mae cyfleoedd i siarad â thîm y prosiect a cheisio gwybodaeth bellach neu roi adborth ar lafar yn bosibl trwy rif rhadffôn y prosiect **0800 699 0081**(Dydd Llun i ddydd Gwener 9yb i 5yp ac eithrio gwyliau cyhoeddus)